**CYNGOR CYMUNED YSTRAD FFLUR**
**COFNODION Y CYFARFOD MISOL**
**21.11.2024 @ 7PM**
**LLYFRGELL NEUADD PANTYFEDWEN**
**PONTRHYDFENDIGAID**

1. **MATERION PERSONOL A CHROESO'R CADEIRYDD**
   Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Elgan Williams bawb i'r cyfarfod.

2. **PRESENNOL**
   Y Cynghorydd Mel Briant
   Y Cynghorydd Ieuan Davies
   Y Cynghorydd Ifan Lloyd Davies
   Y Cynghorydd Gareth Edwards;
   Y Cynghorydd Alun Price Jones;
   Y Cynghorydd Richard Jones;
   Y Cynghorydd Gareth Owen;
   Y Cynghorydd Elgan Williams &

   Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu (SCCH) John Evans.

3. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**
   Ymddiheurodd y Cynghorydd Angharad Jones, y Cynghorydd Non Jones a'r Clerc Eleri Thomas(tywydd garw) am eu hanallu i fynychu'r cyfarfod.

4. **MATERION YN YMWNEUD Â'R HEDDLU**
   **Fe wnaeth SCCH John Evans roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am ddigwyddiadau'n ystod y mis diwethaf:**

   Offer pŵer gwerth £1500 wedi'u dwyn o ardal Swyddffynnon.
   Sgamwyr yn berchen ar gerbyd gwyn yn yr ardal; rhaid bod yn wyliadwrus
   Darparwyd newyddion diweddaraf am ffermydd cannabis.
   Cododd y cyngor cymuned unwaith yn rhagor y mater parhaol ac anghyfreithlon sef bod cŵn yn rhedeg ar ôl ysgyfarnogod.

5. **CADARNHAU COFNODION 17.10. 2024**
   **CYNIGIWYD (Y Cynghorydd Richard Jones); EILIWYD (Y Cynghorydd Gareth Owen)** a **PHENDERFYNWYD** bod cofnodion 17.10 2024 yn gofnod cywir ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

6. **MATERION YN CODI O'R AGENDA**
   **6.1 Ardal Chwarae Pantyfedwen:** Diweddariad gan y Cynghorydd Gareth Owen.

   **6.2 Arhosfan Bws Newydd:** Ifan i ddilyn ymlaen

   **6.3 Tocio Coeden:** Richard i drefnu.

   **6.4 Diffibrilwyr yr ardal**
   Ymddiriedolaeth Ystrad Fflur i gymryd cyfrifoldeb am y diffibriliwr, ger yr Abaty.

   **6.5 Cofnodi enwau ychwanegol ar Gofeb Ryfel Bont**
   Cynghorydd Richard Jones i ofyn i Ray Burrel am amcanbris.

**6.6** **Gwasanaeth Sul y Cofio:** 10.11.2024: roedd tyrfa o 150 wedi ymgynnull. i anfon llythyr o ddiolch at John Jones, John Jenkins a’r Parch. Aled Lewis.

**6.7** **Dŵr yn tresmasu ar faes parcio'r ysgol:** i edrych ar gyflwr y maes parcio unwaith yn rhagor.

**6.8** **Cynnal a Chadw o Gwmpas y pentref:** i gynnwys y mater o fewn Agenda Mawrth 2025.

**6.9** **Pafiliwn:** i’w dynnu i ffwrdd oddi ar yr Agenda.

**6.10** **Pwyllgorau’r Pentref:**
**Coeden Nadolig:** i gyfarfod nos Iau nesaf.

**6.11** **Cinio Blynyddol:** trefnu’n ystod Ionawr 2025. 7fed Chwefror. Ieuan i fwcio.

**7. MATERION PELLACH**

Penderfynwyd gofyn am gytundeb 3 blynedd ar gyfer torri glaswellt o gwmpas y pentref gan gychwyn ym 2025.

**8. CYNLLUNIO:** DIM MATERION CYNLLUNIO.

**9. CYLLID:** trafod yn ystod y cyfarfod nesaf.

**10. MATERION A GODWYD GAN AELODAU**

**10.1** **Consyrn parthed** ci ffyrnig yn y pentref, wedi’i weld heb fod yn gwisgo ffroen ar Lwybr Ystwyth Gorsaf Ystrad Fflur**.**

**10.2** **Ymholiad Dŵr Cymru:** arwydd pentref ar ffordd Aberystwyth angen i'w roi yn ôl yn y lle gwreiddiol.
**Hefyd mae** 'na ddifrod i reiliau’r parc fel canlyniad i waith *Dŵr Cymru.*

**10.3** **Gofynnodd y Cynghorydd Alun Jones** am wobrau raffl ar gyfer y “noson” y goeden Nadolig.

**Dyddiad y Cyfarfod nesaf: Dydd Iau 16eg Ionawr 2025 @7pm.**

**Dyddiad / Arwyddwyd ---------------------------------------------------------------------------------------**